

Tasg 1

Sarn y Cawr, Gogledd Iwerddon

Tasgau darllen a deall

A. Ymarfer aml-ddewis

1. Ble mae Sarn y Cawr?
 - a. Ar arfordir gorllewinol Gogledd Iwerddon
 - b. Ar arfordir gogleddol Gogledd Iwerddon
 - c. Ar arfordir dwyreiniol Gogledd Iwerddon

2. Sawl mil o golofnau o falast sydd yno?
 - a. Tua chwe deg mil
 - b. Tua phum deg mil
 - c. Tua phedwar deg mil

3. Pam ffurfiodd y colofnau?
 - a. Ar ôl ffrwydrad folcanig, oerodd lafa a hollti.
 - b. Ar ôl i ddaeargryn ddigwydd, oerodd lafa a hollti.
 - c. Ar ôl i ddŵr lifo dros bob man, oerodd lafa a hollti.

4. Sawl ochr sydd gan y rhan fwyaf o'r colofnau?
 - a. 7
 - b. 4
 - c. 6

5. Beth arall allwch chi ei wneud os ewch chi i ymweld â Sarn y Cawr?
 - a. Mynd ar weiren sip
 - b. Nofio i weld y colofnau
 - c. Cael paned o goffi

B. Ymarfer cysylltu

Cysylltwch y geiriau sy'n perthyn i'w gilydd yn y ddwy golofn:

1.		Cafodd hi syniad i wisgo Fionn fel baban.
2.		Rhywbeth sydd â chwe ochr.
3.		Mae colofnau basalt yma hefyd.
4.		Adeiladodd Fionn un o'r rhain.
5.		Ffurfion nhw ar ôl ffrwydriad folcanig.

sarn

gwraig Fionn

colofnau basalt

hecsagon

Ynys Staffa

C. Ymarfer trefnu

Rhowch y digwyddiadau hyn yn chwedl Sarn y Cawr yn eu trefn o 1 i 7. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gwelodd Fionn fod Benandonner yn llawer mwy nag ef.	
Gwisgodd gwraig Fionn ef fel baban.	
Rhedodd Benandonner yn ôl i'r Alban a chwalu'r sarn ar ei ôl.	
Penderfynodd cawr o'r enw Fionn mac Cumhaill adeiladu sarn.	1
Rhedodd Fionn yn ôl i'r arfordir.	
Gwelodd Benandonner y baban a meddwl rhaid bod ei dad yn anferth.	
Adeiladodd Benandonner sarn hefyd.	

Ewch i'r dudalen nesaf.

CH. Ymarferion geirfa

1. Dewiswch a chopiwch **1** gair am 'tynnu i lawr' yn chwedl Sarn y Cawr.

2. Tanlinellwch y gair am 'mawr iawn, iawn' yn y paragraff hwn:

Gwelodd Fionn fod Benandonner yn llawer mwy nag ef, felly rhedodd yn ôl i'r arfordir. Doedd e ddim eisiau ymladd ag e. Cafodd gwraig Fionn syniad. Gwisgodd hi Fionn fel baban. Pan welodd Benandonner Fionn, roedd e'n meddwl – os yw'r baban mor fawr â hyn, rhaid bod ei dad yn anferth!

Ydych chi'n gallu meddwl am air arall sy'n golygu'r un peth?